This document is available in English / Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg

# CO22029 Campws y Tyllgoed (Gwelliannau i’r Briffordd)

# Adroddiad ar yr Ymgynghoriad

# Hydref 2023

## Cyflwyniad

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar gynnig Cyngor Caerdydd i wneud gwaith gwella’r briffordd i gefnogi datblygiad Campws y Tyllgoed yn Ward y Tyllgoed. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 21/04/2023 a 12/05/2023

## Gweithgareddau Ymgynghori

Cynhaliwyd y gweithgareddau canlynol i hyrwyddo'r ymgynghoriad:

- Dosbarthu llythyrau i eiddo yng nghyffiniau'r cynllun
- Hysbysiadau safle yng nghyffiniau'r cynllun
- E-bost at randdeiliaid ac ymgyngoreion statudol
- Gwybodaeth ar wefan y Cyngor

## Canlyniadau’r Ymgynghoriad

Cafwyd **12** ymateb unigol yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus hwn, ac mae dadansoddiad o'r ymatebion fel a ganlyn:

**7:** Wedi gwrthwynebu a rhoi sylwadau / awgrymiadau ychwanegol.

**5:**Wedi rhoi sylwadau / awgrymiadau ond heb ddweud a ydynt yn cefnogi neu'n gwrthwynebu'r cynnig

## Canlyniad yr Ymgynghoriad

O ystyried yr ymgynghoriad cyhoeddus, cynigir **bwrw ymlaen** â'r cynnig **diwygiedig** fel y dangosir ar y cynllun amgaeëdig.

**Materion Penodol**

Mae'r materion penodol a godwyd trwy'r ymgynghoriad wedi'u nodi isod ynghyd ag ymateb y Cyngor. Lle mae'r un mater wedi'i godi gan ymatebydd gwahanol, mae'r rhain wedi'u grwpio gyda'i gilydd.

| Mater | Ymateb |
|---|---|
| Derbyniwyd nifer o sylwadau mewn perthynas â chyfyngiadau parcio arfaethedig. Cafwyd cais hefyd am gyfyngiadau parcio ychwanegol mewn lleoliadau eraill ar draws yr ardal. | Er bod cyfyngiadau parcio wedi'u dangos ar y cynlluniau ymgynghori, nid oedd y cyfyngiadau hyn yn rhan o'r ymgynghoriad hwn. Nododd yr holl ddogfennau a gyhoeddwyd gyda'r ymgynghoriad hwn:<br><br>*"Yn ogystal â'r mesurau hyn, cynigir cyfyngiadau parcio a llwytho newydd. Bydd y rhain yn gofyn am Orchymyn Rheoli Traffig (GRhT), a fydd yn destun ymgynghoriad ar wahân fel rhan o'r broses GRhTau* gyfreithiol."<br><br>Mae'r broses GRhTau yn broses gyfreithiol ac mae'n mynd trwy wahanol gamau ymgynghori, ac ar hyn o bryd nid yw'r cynnig hwn wedi cyrraedd y cam ymgynghori cyhoeddus. Pan fydd yn cyrraedd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y GRhTau, bydd trigolion neu unrhyw bartïon â diddordeb wedyn yn cael mwy o wybodaeth am y cyfyngiadau parcio arfaethedig ac yn gallu gwrthwynebu'n ffurfiol i'r GRhTau arfaethedig.<br><br>Felly ni fydd unrhyw sylwadau a dderbynnir yn ymwneud â GRhTau arfaethedig yn cael eu hateb fel rhan o'r ymgynghoriad ar welliannau i'r brifffordd hwn gan y bydd angen codi'r rheiny yn ystod ymgynghoriad ar GRhTau yn y dyfodol. |
| Cafwyd sylwadau ynghylch a allai mesurau arafu traffig ychwanegol gael eu cyflwyno mewn lleoliadau eraill ar draws yr ardal. | Mae'r cyllid ar gyfer y Cynllun hwn wedi'i ddyfarnu gan Gronfa Teithio Llesol Llywodraeth Cymru a chyfraniad o'r gyllideb Addysg ar gyfer yr ysgol. Nid oes unrhyw gyllid ychwanegol ar gael tuag at gyflwyno nodweddion ychwanegol ar hyd y llwybr hwn. Mae cyfyngiad cyflymder o 20mya ar bob ffordd yn y cynllun. Ym mis Medi 2023, 20mya fydd y terfyn cyflymder diofyn ar y ffyrdd ym mhob ardal adeiledig yng Nghymru. Cyngor Llywodraeth Cymru yw na ddylai awdurdodau lleol gyflwyno mesurau arafu traffig ychwanegol fel modd o sicrhau mwy o gydymffurfiaeth gyda chyfyngiadau 20mya.<br><br>Os oes gan drigolion unrhyw bryderon eraill ynghylch diogelwch ar y ffyrdd, gallant eu hanfon drwy e-bost i: projectautrafnidiaeth@caerdydd.gov.uk neu drwy'r post i Prosiectau Trafnidiaeth, Ystafell 301, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd, CF10 4UW ar gyfer ymchwiliad. |
| Dywedodd nifer o sylwadau y bydd ymestyn cyffyrdd Llangattock Road, Norbury | Er ei bod yn arferol i gerbyd arafu cyn cyffordd, os yw cyffordd yn llydan efallai na fydd gyrwyr yn dueddol o arafu'n ddigonol gan wedyn droi ar gyflymder |

| | |
|---|---|
| Road a St Fagans Close tuag allan yn lleihau lled y lôn gerbydau ac yn achosi tagfeydd ar hyd y ffyrdd hyn. Dywedodd sylw hefyd y byddai'n rhaid i gerbydau dresmasu ymhellach ar Heol Sain Ffagan sy'n cynyddu'r risg o wrthdrawiadau. | amhriodol. Mae'r cyffyrdd llydan hyn hefyd yn golygu bod angen i gerddwyr groesi lôn gerbydau fwy llydan sy'n cynyddu'r risg o wrthdaro rhwng cerbydau a cherddwyr. Yn rhan o'r cynnig hwn, bydd y ffordd yn cael ei chulhau a bydd hynny'n annog cerbydau i arafu wrth droi. Bydd hyn yn cynnig cyfleuster gwell a mwy diogel i bobl sy'n teithio ar droed ac ar feic yn lleol gan gynnwys teithiau dyddiol i ysgolion lleol. Mae hyn yn gyson â gofynion Deddf Teithio Llesol (Cymru) ac mae'n cefnogi amcanion y Cyngor o gynyddu teithiau drwy ddulliau teithio llesol. |
| Dywedodd trigolyn na fyddai'r bolardiau sy'n cael eu cyflwyno ar gornel Rhodfa Doyle yn atal pobl rhag parcio cerbydau yn y lleoliad hwn a bod angen mesurau pellach. | Fel rhan o'r cynnig GRhT, bydd cyfyngiadau parcio a llwytho yn cael eu cyflwyno o amgylch y gornel hon i atal pobl rhag gallu parcio cerbydau'n gyfreithlon yn y lleoliad hwn. |
| Mae pryderon wedi eu mynegi am lifogydd ar gornel Norbury Road / Heol y Tyllgoed. Mae problem ddraenio yn y lleoliad hwn a bydd ymestyn y gyffordd tuag allan dim ond yn creu mwy o broblemau llifogydd. | Caiff y ddarpariaeth ddraenio ei hasesu yn ystod y cam cynllunio manwl, a chaiff gylis newydd eu gosod yn ôl yr angen er mwyn sicrhau y ceir digon o ddraenio ar y briffordd. |
| Derbyniwyd cais i gyflwyno cyfyngiad unffordd ar hyd rhan o Heol y Tyllgoed. | Byddai cyflwyno system unffordd yn debygol o arwain at gynnydd yng nghyflymder cerbydau ar y ffordd, gan na fyddai gyrwyr yn wynebu unrhyw rwystrau gan fod parcio'n gweithredu fel nodwedd arafu traffig naturiol. O ystyried yr uchod a hanes diogelwch da'r ffordd, nid oes cyfiawnhad dros gyflwyno system unffordd yn y lleoliad hwn. |
| Derbyniwyd sylw yn nodi nad oedd y cynllun yn ddefnydd da o arian trethdalwyr ac y dylid defnyddio'r arian ar gyfer pethau eraill fel atgyweirio ceudyllau. | Bydd y pecyn arfaethedig o fesurau'n helpu i greu llwybrau cerdded diogel i Gampws y Tyllgoed, a chreu amgylchedd priffordd diogelach trwy arafu cerbydau a gosod croesfannau ffurfiol i gerddwyr. Bydd hyn yn annog mwy o blant i gerdded i'r ysgol, gan gynyddu lefelau gweithgarwch a fydd yn cael manteision iechyd cadarnhaol. Mae'r cynnig hwn yn cael ei ddatblygu gan ddefnyddio cyllid cyfalaf o Gronfa Teithio Llesol Llywodraeth Cymru a chyfraniad o'r gyllideb Addysg ar gyfer yr ysgol. Ni ellir defnyddio'r cyllid hwn i wneud gwaith cynnal a chadw fel atgyweirio ceudyllau. |
| Derbyniwyd sylw yn nodi y dylid bod wedi cynnal yr ymgynghoriad hwn a hefyd asesiad priffordd llawn cyn i unrhyw gytundeb cynllunio ar gyfer y safle newydd hwn gael ei ddatblygu. | Mae'r cynlluniau datblygu yn gynnig ar wahân i'r cynigion gwella seilwaith y briffordd. Diben y gwaith ar y briffordd yw hwyluso mynediad teithio llesol diogel a chyfleus i'r ysgol, ond nid yw'n rhan o'r datblygiad ysgol arfaethedig ac felly nid yw wedi'i gynnwys yn y cais cynllunio ysgol. |
| Derbyniwyd nifer o sylwadau ynghylch sut y bydd y cyfyngiadau arfaethedig yn cael | Mae Swyddogion Gorfodi Sifil y Cyngor yn gorfodi'r cyfyngiadau parcio presennol yn rheolaidd, ond dylid cyfeirio unrhyw gais am orfodi'r cyfyngiadau parcio presennol at y Swyddogion Gorfodi Sifil y gellir cysylltu |

| | |
|---|---|
| eu gorfodi ac a ellir gorfodi drwy gamerâu. | â hwy drwy C2C ar 029 2087 2088. Fodd bynnag, byddwn yn cysylltu â'r tîm Gorfodi Sifil ar ôl gweithredu'r cynllun i asesu a oes angen gorfodi drwy gamerâu yn yr ardal. |
| Pryderon ynghylch y goleuadau a fydd yn cael eu cyflwyno gyda'r croesfannau sebra arfaethedig. | Mae'r goleuadau oren sy'n fflachio yn rhan annatod o ddyluniad croesfan sebra, mae hwn yn ddyluniad safonol a ddefnyddir wrth bob croesfan sebra, yn unol â safonau dylunio technegol cenedlaethol. Mae defnyddio 'glôb melyn' wrth groesfan sebra yn ofyniad rhagnodedig fel rhan o gynllun croesfan sebra dan Bennod 6 Rheoliadau a Chyfarwyddiadau Cyffredinol Arwyddion Traffig.<br><br>Gosodir gorchuddion estynedig dros bennau'r goleuadau a fydd yn helpu i leihau faint o olau sy'n dod o ochrau'r goleuadau. |
| Derbyniwyd gwrthwynebiadau i'r groesfan sebra ddyrchafedig arfaethedig ar Heol y Tyllgoed gan nodi y bydd hyn yn dileu unrhyw gyfle i drigolion, ymwelwyr, gweithwyr danfoniadau neu fasnachwyr barcio ar y briffordd.<br><br>Gofynnwyd cwestiynau ynglŷn â'r cyfiawnhad dros y groesfan sebra ar Heol y Tyllgoed os yw'r prif fynediad i Ysgol Uwchradd Cantonian ar Rodfa Doyle<br><br>Pryderon ynghylch gwelededd y groesfan sebra ddyrchafedig arfaethedig ar Heol y Tyllgoed ar gyfer gyrwyr sy'n agosáu at y groesfan.<br><br>Sylwadau'n nodi bod y groesfan sebra ddyrchafedig arfaethedig ar Heol y Tyllgoed dim ond o fudd i gerddwyr am gyfnod byr o amser<br><br>Gall lleoliad arfaethedig y groesfan sebra ddyrchafedig ar Heol y Tyllgoed achosi problemau diogelwch gyda cherbydau'n gyrru am yn ôl o ddreifiau yn agos at y groesfan arfaethedig. | Byddai'r groesfan sebra ddyrchafedig arfaethedig gwreiddiol a'r marciau ffordd igam-ogam cysylltiedig wedi cael gwared ar yr holl barcio anghyfyngedig ar hyd y rhan hon o Heol y Tyllgoed. Fodd bynnag, o ystyried y sylwadau a dderbyniwyd fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, nid ydym yn cynnig cyflwyno croesfan sebra ddyrchafedig mwyach. Rydym nawr yn cynnig cyflwyno croesfan nas rheolir ddyrchafedig fel rhan o'r cynllun hwn, ni fydd hyn yn cael effaith fawr ar barcio ar y ffordd ar hyd y rhan hon o Heol y Tyllgoed. |
| Bydd y groesfan sebra ddyrchafedig arfaethedig yn | Caiff y ddarpariaeth ddraenio ar gyfer y groesfan ddyrchafedig nas rheolir ei hasesu yn ystod y cam cynllunio manwl, a chaiff gylis newydd eu gosod yn ôl |

| | |
|---|---|
| cynyddu'r risg o lifogydd i eiddo cyfagos. | yr angen er mwyn sicrhau y ceir digon o ddraenio ar y briffordd. |
| Gofynnwyd a fydd y groesfan sebra bresennol ar Heol y Tyllgoed y tu allan i fynedfa bresennol yr ysgol yn aros. | Nid oes unrhyw gynlluniau i gael gwared ar y groesfan sebra bresennol ar Heol y Tyllgoed |
| Derbyniwyd sylw ynghylch a oedd unrhyw Archwiliadau Diogelwch ar y Ffordd wedi'u cynnal. | Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus ar gynlluniau, mae adegau pan fydd angen newid cynlluniau arfaethedig. Felly, ar ôl i'r ymgynghoriad cyhoeddus gael ei gwblhau, gofynnir am Archwiliad Diogelwch ar y Ffordd llawn ar ddyluniad terfynol y cynllun. |
| Sylw ynghylch torri coed yn ôl ar Heol y Tyllgoed i ddarparu ar gyfer y goleuadau sy'n gysylltiedig â'r groesfan sebra ddyrchafedig a fydd yn cael effaith ar fywyd gwyllt. | Gan nad ydym yn symud ymlaen â chroesfan sebra ddyrchafedig yn y lleoliad hwn mwyach, nid oes angen torri coed yn ôl er mwyn sicrhau bod modd gweld y goleuadau croesi. Fodd bynnag, efallai y bydd angen newid y goleuadau stryd ar hyd Heol y Tyllgoed fel rhan o'r gwaith hwn. Ymchwilir i hyn yn ystod y cam dylunio manwl. |
| Dywedodd sylw fod diffyg manylion yn y cynlluniau ac nad yw’r cynlluniau yn cynnig gwybodaeth fel amserlenni nac yn cynnwys disgrifiad llawn o'r gwaith. | Mae'r cynlluniau a gyflwynwyd fel rhan o'r ymgynghoriad hwn yn gynlluniau ymgynghori safonol y mae manylion lefel beirianneg wedi’u dileu ohonynt. Nid yw penderfyniad terfynol wedi'i wneud ynglŷn â sut y bydd y cynllun yn mynd rhagddo a rhaid i'r cynllun hwn fynd drwy nifer o brosesau gan gynnwys cam tendro felly nid ydym yn gallu nodi amserlenni ar hyn o bryd. Yn dilyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol, bydd hysbysiadau safle newydd yn cael eu gosod ar y safle yn yr ardal yn hysbysu'r cyhoedd o ganlyniad yr ymgynghoriad hwn. Bydd copi o'r adroddiad ôl-ymgynghori hefyd yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor i bartïon â diddordeb ei weld. |
| Gofynnwyd a fyddai'r safle bws ar Heol Sain Ffagan yn union gyferbyn â chyffordd Rhodfa Doyle yn cael ei symud dan y cynnig hwn. | Nid oes cynnig i symud y safle bws hwn fel rhan o'r cynllun hwn. |
| Bydd newidiadau i gyffordd Heol Sain Ffagan / Rhodfa Doyle yn achosi mwy o dagfeydd ac yn arwain at gerbydau yn gyrru dros ochr anghywir y ffordd. | Mae culhau cyffyrdd yn helpu i arafu cerbydau o amgylch cyffyrdd. Mae ymarferion wedi’u cynnal gan ddefnyddio meddalwedd ddylunio yn ystod y cam dylunio cysyniad i gadarnhau bod modd i gerbydau arferol droi heb gael eu rhwystro gan gynllun arfaethedig y gyffordd. |
| Derbyniwyd sylwadau’n nodi y byddai'r cynllun yn achosi oedi / problemau i'r gwasanaethau brys yn yr ardal. | Fel rhan o unrhyw gynllun Gwella’r Briffordd, rydym yn ymgynghori â'r holl wasanaethau brys os ydynt yn dymuno gwneud sylwadau ar gynllun arfaethedig. |